



Qualitas
energy

Heolddu Solar Farm

Project newsletter: September 2025

Find out more: www.heolddusolar.co.uk

Qualitas Energy is developing proposals for Heolddu Solar Farm, a 40MW solar farm on land between Ferryside and Llandyfaelog, in Carmarthenshire.

The solar farm would connect to the grid via the existing pylon on the site. It would generate enough green energy each year to power approximately 10,770 homes and save approximately 9,961 tonnes of CO₂ per year – the equivalent of removing 2,972 cars from the road. That's the same as powering almost all the homes in Kidwelly and St Ishmael, Trimsaran, St Clears and Camarthen put together. This project plays an important role in helping Wales meet its renewable energy targets and tackling climate change.

Statutory Consultation Launched

As the solar farm would generate more than 10MW, we are applying for planning permission to Planning and Environment Decisions Wales (PEDW). In addition to PEDW, we are also working with Carmarthenshire County Council, community councils and nearby residents to find out their thoughts on the proposals.

We are grateful for all of the feedback we received during the initial round of consultation in March. We are now in the Pre-Application Consultation (PAC) stage which is open until Thursday 30th October 2025.

During this stage, we will be consulting again with specialist consultees like the local planning authority, residents, community councils and other local organisations, to help further refine our proposals. We will also be hosting two public-drop in events to share our plans and gather feedback about our proposals. Details of the events can be found below:

**Calon y Fferi Community Centre, Carmarthen Road,
Ferryside, SA17 5TE**

Monday 13th October 2025,
2pm until 7pm

**Llandyfaelog Village Hall, Llandyfaelog, Kidwelly,
SA17 5PA**

Tuesday 14th October 2025
2pm until 7pm

Mae Qualitas Energy yn datblygu cynigion ar gyfer Fferm Solar Heolddu, fferm solar 40MW ar dir rhwng Glanyfferi a Llandyfaelog, yn Sir Gaerfyrddin.

Byddai'r fferm solar yn cysylltu i'r grid drwy'r peilon presennol ar y safle. Byddai'n cynhyrchu digon o ynni gwyrdd bob blwyddyn i bweru tua 10,770 o gartrefi ac arbed tua 9,961 tonnelli o CO₂ y flwyddyn – sy'n cyfateb i gael gwared ar 2,972 o geir oddi ar y ffordd. Mae hynny'r un fath â phweru bron pob cartref yng Nghydwelli a Llanismel, Trimsaran, San Clêr a Chaerfyrddin gyda'i gilydd. Mae'r prosiect hwn yn chwarae rhan bwysig wrth helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau ynni adnewyddadwy a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Lansio Ymgynghoriad Statudol

Gan y byddai'r fferm solar yn cynhyrchu mwy na 10MW, rydym yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW). Yn ogystal â PEDW, rydym hefyd yn gweithio gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin a chynghorau cymuned cyfagos a thrigolion cyfagos i ganfod eu barn ar y cynigion.

Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a gawsom yn ystod y cylch cyntaf o ymgynghori ym mis Mawrth. Rydym bellach yn y cyfnod Ymgynghori Cyn Ymgeisio (PAC) sydd ar agor tan ddydd Iau 30 Hydref 2025.

Yn ystod y cam hwn, byddwn yn ymgynghori eto ag ymgynghoreion arbenigol fel yr awdurdod cynllunio lleol, trigolion, cynghorau cymuned a sefydliadau lleol eraill, i helpu i fireinio ein cynigion ymhellach. Byddwn hefyd yn cynnal dau ddiwyddiad galw heibio i'r cyhoedd i rannu ein cynlluniau a chasglu adborth am ein cynigion. Mae manylion y digwyddiadau i'w gweld isod:

**Canolfan Gymunedol Calon y Fferi, Heol Caerfyrddin,
Glanyfferi, SA17 5TE**

Dydd Llun 13eg Hydref 2025,
2pm tan 7pm

**Neuadd Bentref Llandyfaelog, Llandyfaelog, Cydweli,
SA17 5PA**

Dydd Mawrth 14eg Hydref 2025
2pm until 7pm

The proposals

Concept Landscape and Biodiversity Masterplan – Solar Area West




The proposals

Since the initial round of consultation held in March, we have been carrying out survey work and assessments to help refine our plans for Heolddu Solar Farm. Alongside the findings from this technical work, the design has also evolved in response to feedback received during the initial consultation. The key changes made following community feedback include:

- Solar panels have been removed from a number of fields that contained best and most versatile agricultural land to reduce the impact of the project on agricultural land. The proposals will also incorporate low-level sheep grazing to be maintained on fields to keep the land in agricultural use.
- A Landscape and Ecological Design Scheme has been developed in collaboration with Carmarthenshire Council's landscape, ecology and access officers to deliver a significant net benefit to biodiversity through hedgerow planting to increase connectivity, grassland enhancement for ground nesting birds and native tree and shrub planting to limit views into the site.
- Impacts on nearby properties have been reduced through the inclusion of an alternative construction access that avoids residential properties and nearby farms entirely. Solar panels have also been removed from certain fields to create greater buffers between the site and local homes.
- Existing Public Rights of Way have been enhanced with the existing footpath running through Solar Area West to be diverted slightly to the south, to improve to improve countryside access, and funding to be allocated to reopen nearby off-site public footpaths.
- An optimised substation design has reduced the need for major groundworks and leaves a suitable buffer between it and the nearby woodland, which is known to be used by bats as a travel route.
- A Flood Consequences Assessment has been undertaken and a Conceptual Drainage Strategy has been developed, incorporating new drainage channels to better manage water run-off from surrounding farmland that presently causes the local road to flood.
- Three outlier fields to the north of the two main solar areas are no longer proposed to be used for temporary construction laydown areas or habitat enhancement areas

Concept Landscape and Biodiversity Masterplan – Solar Area East



Legend

- Site
- Scheme Elements**
 - Communications tower
 - Customer control room
 - Distribution Network Operator - Access
 - Distribution Network Operator - Control room
 - Distribution Network Operator - Indicative access through woodland
 - Distribution Network Operator - Substation
 - Inverter
 - Maintenance tracks
 - Photovoltaic frames
 - Site access
 - Spare parts container
 - Transformer
 - Security fencing
 - Deer fencing
 - Gate
- Existing Features**
 - Existing hedge
 - Existing relic hedge
 - Existing tree
 - Existing woodland
 - Standing water
 - Existing PRoW
 - Watercourse
- Landscape and Biodiversity Strategy**
 - Grassland enhancement - lowland meadow/tall wildflower mosaic managed through cutting
 - Grassland enhancement - wet meadow managed through low intensity grazing
 - Grassland enhancement - wet meadow managed through cutting
 - Native tree planting
 - Proposed hedge
 - Tussock grassland and ruderal
 - Vegetation to be removed
 - Wetland planting and pond enhancement
 - Woodland meadow planting / tree planting
 - Bat box
 - Bird box

Y cynigion

Ers y cylch ymgynghori cychwynnol a gynhaliwyd ym mis Mawrth, rydym wedi bod yn cynnal gwaith arolygu ac asesiadau i helpu i fireinio ein cynlluniau ar gyfer Fferm Solar Heolddu. Ochr yn ochr â chanfyddiadau'r gwaith technegol hwn, mae'r dyluniad hefyd wedi esblygu mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol. Mae'r newidiadau allweddol a wnaed yn dilyn adborth gan y gymuned yn cynnwys:

- Mae paneli solar wedi cael eu tynnu o nifer o gaeau a oedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlywras er mwyn lleihau effaith y prosiect ar dir amaethyddol. Bydd y cynigion hefyd yn cynnwys pori defaid ar lefel isel i'w gynnal ar gaeau i gadw'r tir mewn defnydd amaethyddol.
- Mae Cynllun Dylunio Tirwedd ac Ecolegol wedi'i lunio mewn cydweithrediad â swyddogion tirwedd, ecoleg a mynediad Cyngor Sir Caerfyrddin, i ddarparu budd net pwysig i fioamrywiaeth. Bydd y cynllun yn golygu plannu gwrychoedd i wella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd, gwella glaswelltiroedd ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear a phlannu coed a llwyni brodorol i gyfyngu ar faint o'r safle y mae modd i bobl ei weld.
- Mae effeithiau ar eiddo cyfagos wedi'u lleihau trwy gynnwys mynediad adeiladu amgen sy'n osgoi eiddo preswyl a ffermydd cyfagos yn gyfan gwbl. Mae paneli solar hefyd wedi cael eu tynnu o rai caeau i greu ardaloedd clustogi mwy rhwng y safle a chartrefi lleol.
- Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol wedi'u gwella gyda'r llwybr troed presennol sy'n rhedeg trwy ardal orllewinol y fferm solar yn cael ei ddargyfeirio ychydig i'r de, i wella mynediad i gefn gwlad. Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddyrannu i ailagor llwybrau troed cyhoeddus cyfagos sydd ddim ar y safle.
- Mae dyluniad is-orsaf wedi'i optimeiddio wedi lleihau'r angen am waith tir mawr ac yn gadael tir clustogi addas rhyngddi a'r coetir cyfagos, y gwyddys ei fod yn cael ei ddefnyddio gan ystlumod fel llwybr teithio.
- Mae Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd wedi'i gynnal ac mae Strategaeth Draenio Gysyniadol wedi'i lunio. Mae'r strategaeth yn ymgorffori sianeli draenio newydd i reoli dŵr ffo yn well o dir ffermio cyfagos sy'n achosi llifogydd ar y ffordd leol ar hyn o bryd. Mae paneli solar wedi cael eu tynnu o ardaloedd o dir uchel i leihau effaith weledol y prosiect.
- Dydy'r tri chau i'r gogledd o'r ddwy brif ardal solar ddim bellach yn cael eu cynnig yn ardaloedd storio dros dro ar gyfer y gwaith adeiladu, na chwaith yn ardaloedd gwella cynefin.



Addressing the climate emergency

The Heolddu project will contribute towards Wales' transition to a low carbon economy and will help to reduce greenhouse gas emissions in line with local, national, and international targets, including the legally binding commitment to reach Net Zero by 2050.

At present there is a total of 3.6GW of renewable electricity capacity in Wales, 8% (274MW) of which is located in Carmarthenshire, with ground mounted solar providing c. 1GW of that total. This solar generation capacity is contributing to the overall UK Government target of 70GW of solar by 2050, needed to meet legally binding net zero targets. Enormous additional solar generation capacity is therefore urgently required to help tackle climate change.




Community Benefit Fund

Qualitas Energy is committed to meaningful community engagement and delivering long-term value to the local area surrounding the proposed Heolddu Solar Farm.

The proposed Community Benefit Fund would deliver £800,000 over the 40-year lifetime of the project, providing £20,000 each year the scheme is operational to support local projects. As part of this commitment, we have been actively engaging with local residents, community organisations, and stakeholders to understand local needs.

In March 2025, we held our first round of consultation to understand community needs. This was followed by a Community Benefits Workshop in June 2025, where local councils, organisations, and stakeholders discussed how the fund could be managed and which areas it might support. It was agreed that areas the fund could support include Tourism & Infrastructure; Culture & Heritage; Rural Development; Transport; Support for Young People and Community Facilities (e.g. village halls).

We will continue to engage with the community to ensure the fund delivers meaningful and lasting benefits, should the project receive planning consent.



Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

Bydd prosiect Heolddu yn cyfrannu at drawsnewid Cymru i economi carbon isel a bydd yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â thargedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys yr ymrwymiad sy'n gyfreithiol rwymol i gyrraedd Sero Net erbyn 2050.

Ar hyn o bryd mae cyfanswm o 3.6GW o gapasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru (8% (274MW) ohono wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin), gyda solar ar y ddaear yn darparu oddeutu 1GW o'r cyfanswm hwnnw. Mae'r capasiti cynhyrchu solar hwn yn cyfrannu at darged cyffredinol Llywodraeth y DU o 70GW o ynni solar erbyn 2050, sydd ei angen i gyrraedd targedau sero net sy'n gyfreithiol rwymol. Felly mae angen capasiti cynhyrchu solar ychwanegol enfawr ar frys i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.



Cronfa Budd Cymunedol

Mae Qualitas Energy wedi ymrwymo i ymgysylltu cymunedol ystyrlon a darparu gwerth hirdymor i'r ardal leol o amgylch y Fferm Solar Heolddu arfaethedig.

Bydd y Gronfa Budd Cymunedol arfaethedig yn sicrhau £800,000 dros oes y prosiect, sef 40 mlynedd, gan ddarparu £20,000 bob blwyddyn mae'r prosiect yn gweithredu i gefnogi prosiectau lleol. Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, rydyn ni wedi bod yn ymgysylltu'n weithredol â thrigolion lleol, sefydliadau cymunedol, a rhanddeiliaid i ddeall anghenion lleol.

Ym mis Mawrth 2025, cynhaliwyd ein cylch cyntaf o ymgynghori i ddeall anghenion y gymuned. Dilynwyd hyn gan Weithdy Buddion Cymunedol yn Mehefin 2025, lle trafododd cynghorau lleol, sefydliadau a rhanddeiliaid sut y gellid rheoli'r gronfa a pha feysydd y gallai eu cefnogi. Cytunwyd y gallai'r gronfa gefnogi Twristiaeth a Seilwaith; Diwylliant a Threftadaeth; Datblygu Gwledig; Trafnidiaeth; Cymorth i Bobl Ifanc a Chyfleusterau Cymunedol (e.e. neuaddau pentref).

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau bod y gronfa'n darparu buddion ystyrlon a pharhaol, os bydd y prosiect yn cael caniatâd cynllunio.

Key benefits of the project:

The Heolddu Solar Farm project will assist in addressing the climate emergency and provide broader landscape enhancements and community benefits to the local area.

Energy security & affordability

The project will generate local clean energy, boosting Wales' economy and energy security. By developing renewable solar energy, we can reduce our reliance on climate-damaging fossil fuels, like oil and gas, which are often imported and subject to global conflicts like Russia's invasion of Ukraine. Homegrown renewable power generation, such as the proposed Heolddu Solar Farm, will help secure our energy supply and make electricity more affordable and cleaner.

Economic benefits


The project will deliver a Community Benefit Fund of £20,000 per year, amounting to £800,000 over the 40-year lifetime of the project to support local organisations. In addition, it will provide significant economic benefits to local businesses, residents, and Carmarthenshire County Council. We are committed to using local suppliers for construction and operation wherever possible.

Biodiversity net benefit

Through implementation of the Landscape and Ecological Design Scheme, the Heolddu Solar Farm will deliver a net benefit to biodiversity through internal and boundary hedgerow reinforcement and reinstatement; grassland enhancement for ground nesting and wading birds; woodland edge scrub planting to improve connectivity; and wetland restoration to provide habitat for wading birds as well as enhanced carbon sequestration.

Enhanced public access

The project will reinstate and improve the existing public footpath running through the site and will also provide funds to restore other public footpaths in the local area, improving countryside access for local residents.



About us

Qualitas Energy has been leading the drive of renewable energy, energy transition and sustainable infrastructure development in Europe for over 18 years. We consist of a team of professionals who work to achieve our shared objective and commitment to sustainability. Our UK Team delivering this project are based in our Bristol office, and have many years experience of delivering solar farm projects in Wales and England.

Qualitas Energy is committed to accelerating the energy transition in the UK. Everything that we do, we do it believing in our purpose of enabling a more sustainable and greener future for generations to come.

Find out more: qualitasenergy.com/en/uk



Buddion allweddol:

Bydd prosiect Fferm Solar Heolddu yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn darparu gwelliannau ehangach i'r dirwedd a buddion cymunedol i'r ardal leol.

Diogelwch ynni a fforddiadwyedd:

Bydd y prosiect yn cynhyrchu ynni glân lleol, gan roi hwb i economi a sicrwydd ynni Cymru. Trwy ddatblygu ynni solar adnewyddadwy, gallwn leihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil sy'n niweidio'r hinsawdd, fel olew a nwy, sy'n aml yn cael eu mewnfario ac sy'n destun gwrthdaro byd-eang fel goresgyniad Rwsia o'r Wcráin. Bydd cynhyrchu pŵer adnewyddadwy cartref, fel y Fferm Solar Heolddu arfaethedig, yn helpu i sicrhau ein cyflenwad ynni a gwneud trydan yn fwy fforddiadwy a glanach.

Manteision economaidd:

Bydd y prosiect yn darparu Cronfa Budd Cymunedol gwerth £20,000 bob blwyddyn. Dros oes y prosiect, sef 40 mlynedd, mae hynny'n cyfateb i £800,000 i gefnogi sefydliadau lleol. Yn ogystal, bydd yn darparu manteision economaidd sylweddol i fusnesau lleol, trigolion a Chyngor Sir Caerfyrddin. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddefnyddio cyflenwyr lleol ar gyfer y gwaith o adeiladu a gweithredu'r prosiect lle bynnag y bo modd.

Enillion net bioamrywiaeth:

Drwy weithredu'r Cynllun Dylunio Tirwedd ac Ecolegol, bydd y Fferm Solar Heolddu yn darparu budd net i fioamrywiaeth drwy atgyfnerthu ac adfer gwrychoedd mewnol a ffiniol; gwella glaswelltiroedd ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear ac adar hirgoes; plannu prysgwydd ar ymylon coetiroedd i wella cysylltedd; ac adfer gwlyptiroedd i ddarparu cynefin ar gyfer adar hirgoes yn ogystal â gwella atafaelu carbon.

Mynediad gwell i'r cyhoedd:

Bydd y prosiect yn adfer ac yn gwella'r llwybr troed cyhoeddus presennol sy'n rhedeg trwy'r safle a bydd hefyd yn darparu cyllid i adfer llwybrau troed cyhoeddus eraill yn yr ardal leol, gan wella mynediad i gefn gwlad i drigolion lleol.

Amdanom ni

Mae Qualitas Energy wedi bod yn arwain ymgyrch ynni adnewyddadwy, trawsnewid ynni a datblygu seilwaith cynaliadwy yn Ewrop ers dros 18 mlynedd. Rydym yn cynnwys tîm o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio i gyflawni ein hamcan a'n hymrwymiad cyffredin i gynaliadwyedd. Mae ein Tîm y DU sy'n cyflawni'r prosiect hwn wedi'i leoli yn ein swyddfa ym Mryste, ac mae ganddyn nhw flynyddoedd lawer o brofiad o gyflawni prosiectau ffermydd solar yng Nghymru a Lloegr.

Mae Qualitas Energy wedi ymrwymo i gyflymu'r trawsnewid ynni yn y DU. Popeth a wnawn, rydym yn ei wneud gan gredu yn ein pwrpas o alluogi dyfodol mwy cynaliadwy a gwyrddach am genedlaethau i ddod.

Darganfod mwy: [qualitasenergy.com/en/uk](https://www.qualitasenergy.com/en/uk)



Get in touch

We are grateful for all feedback received from stakeholders, consultees and the local community to date

If you would like to comment on the updated Heolddu Solar Farm application, please contact us using one of the following methods:

Email: info@heolddusolar.co.uk

Phone: 0800 699 0081
(freephone)

Post: send to FREEPOST TC
CONSULTATION
(no further address or stamp
required)

Cysylltwch â ni

Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a dderbyniwyd gan randdeiliaid, ymgynghoreion a'r gymuned leol hyd yn hyn.

Os hoffech wneud sylwadau ar y cais Fferm Solar Heolddu wedi'i ddiweddarau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

E-bost: info@heolddusolar.co.uk

Ffôn: 0800 699 0081
(Rhadffôn)

Post: anfonwch at FREEPOST TC
CONSULTATION
(dim angen cyfeiriad pellach
na stamp)

Find out more:
www.heolddusolar.co.uk

Darganfod mwy:
www.heolddusolar.co.uk